

CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION CYFARFOD CYNGOR 22 Ebrill 2014

Presennol

Ei Deilyngdod Y Maer – Cyng W Roy Owen

Cynghorwyr

W Lloyd Davies, W T Owen, I C Thomas, H W Roberts, A W Bohana, A Kirk
M Thomas, A Hopcyn, E Lovgreen, T Thomas, K Williams, B Owen, C Williams

1. Ymddiheuriadau

Cyng G Thomas, Cyng E Hughes, Cyng H Edwards

2. Cyhoeddiadau'r Maer

Sioe Jiwdas gan criw Sbarc yn Galeri – noson wych
A diolch i'r Dirprwy Faer am fynychu Noson Gwobrwyo dartiau oedd
ru'n noson

3. Datgan Buddiant Personol

W T Owen – cynllunio a trwyddedu
I C Thomas – Trwyddedu

4. Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc). Er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau

Gwybodaeth pellach efo eitem 16

5. Cofnodion

I gadarnhau y cofnodion canlynol:-

- i.* Cyngor, 8 Ebrill 2014
Penderfynwyd
Derbyn fel rhai cywir

6. Ceisiadau Cynllunio

I ystyried y ceisiadau cynllunio a thrwyddedu

Penderfynwyd

Cynllunio

1. C14/0209/14/LL **Cytuno**
Creu balcony uwchben to gwastad
presennol yn y cefn

1 Heol Elinor/Eleanor Street, Caernarfon

2. C14/0283/14/LL **Cytuno**
Estyniadau a chodi sied yn yr ardd

Eridon, Bethel Road, Caernarfon

Trwyddedu

1. Cais am drwydded er mwyn darparu **Cytuno**
cyfleusterau caffi palmant ar y Briffordd/

Gray Thomas
9 – 11 Pen Deitsh
Caernarfon

2. Deddf Trwyddedu 2003/Licensing Act 2003/ **Cytuno**
I amrywio Trwydded Eiddo

Cofi Roc, 25-28 Y Maes, Caernarfon

7. Cyfrifon

I gymeradwyo y biliau i'w talu

Penderfynwyd

Derbyn a'u talu

8. Dogfen Weithredol y Cyngor

Gofynnwyd parthed

- “youth advisors” Canllawiau newydd parthed ar y rhaglen heno- clerc i anfon copi o’r canllawiau allan i bawb er mwyn symud ymlaen ar mater
- Ymweliad baton gemau Cymanwlad ac os fydd cynghorwyr yn rhan o’r peth- eglurodd y clerc fydd manylion yn y cyfarfod nesaf
- DBS ac eglurodd y clerc bod cyrff yn gwrthod ar hyn o bryd gan bod ni ddim efo’r youth advisors eto a tydi digwyddiadau ar ben ei hunain ddim yn cyfrif fel rheswm penodol – clerc i barhau i chwilio am gwmni fydd yn fodlon gweithredu

Penderfynwyd

Derbyn y dogfen ac i’r clerc holi Gisda i weld os oes modd symud ymlaen efo’r arwyddion electroneg yn ei adeilad newydd nhw

9. Cyngor Gwynedd

Cyfyngiadau cyflymder

Penderfynwyd

Danfon llythyr i nodi ein bod yn gefnogol i’r rhannau a nodwyd am Gaernarfon

10. Llythyr gan Geraint Williams

Pâr: Plac i gydnabod 3 o’r dre

Penderfynwyd

Gan mai’r Cymdeithas Dinesig sydd wedi gwneud math yma o beth yn hanesyddol penderfynwyd pasio’r llythyr ymlaen iddyn nhw ystyried eu gynnwys

11. Cyngor Gwynedd

Ymateb parthed materion traffig

Cafwyd trafodaeth eang eto ar y pwnc a theimlwyd er mwyn ceisio dod ar mater i ben yn hytrach na cyfathrebu nol a blaen

Penderfynwyd

Estyn gwahoddiad i aelod Cabinet Gareth Roberts (ynghyd a swyddogion priodol) fel siaradwyr gwadd er mwyn iddynt glywed faint o deimlad sydd yn bodoli ar y pwnc

12. Cyngor Gwynedd

Arolwg bysiau

Cafwyd trafodaeth am y diffyg amseriad . e-bost allan ar 4ydd Ebrill (sef dydd Gwener) yn hysbysebu bod y wybodaeth yn cael eu casglu o'r 1af o Ebrill ac hefyd bod y dyddiad yng Nghaernarfon ar y 9fed o Ebrill (felly yn wirioneddol dim ond 3 diwrnod i godi ymwybyddiaeth)

Penderfynwyd

Anfon llythyr i Cyngor Gwynedd yn nodi bod amserlen codi ymwybyddiaeth i'r ymgynghoriad yn gwneud hi yn anodd iawn i bobl ymateb .

13. Llythyr Diolch gan Radio Ysbyty Gwynedd

Penderfynwyd

Derbyn er Gwybodaeth

14. Adroddiad ar lafar Cyng. W. T. Owen

Pâr: Cynhadledd Rhyfel 100 mlynedd

Nododd Cyng W T Owen ei fod wedi bod yn gynhadledd llwyddiannus iawn

Croesawyd pawb gan Mair Stevens

Ac yna cyflwyniad gan John Griffiths Aelod Cynulliad dros ddiwylliant a hamdden . Cafodd y cynllun ei lansio gan Prif Weinidog Cymru nol yn 2013 o dan pennawd "Cymru'n cofio ". Collwyd dros 35,000 o Cymru Cymraeg .

Cafwyd cyflwyniad gan Frances Moreton a Andrea Levin o "War memorials trust"

- Nodi mai tîm bychain o 7 staff gan obeithio cyflogi 4 ychwanegol
- Cofeb gyntaf wedi cofrestru yn y 7fed ganrif Battle of Dunnichen
- Angen sicrhau bod pob cofeb wedi cofrestru
- Medru cynnig gwybodaeth am ddim
- Grantiau ar gael (a gan CADW hefyd)– 19 wedi bod yng Nghymru werth £31,112 cyfartaledd o £1,637
- Cafwyd enghreifftiau o waith a nodi llefydd lleol fel Criccieth a Bangor
- In memorium 2014 – free smartwater i warchod y Gofeb
- Mae hawl gan berchennog unrhyw gofeb i ychwanegu enwau o unrhyw ryfel lle bo'r unigolyn neu y teulu yn dod o'r dre perthnasol
- Cyflwyniad hefyd gan Adam Hitchings o "heritage lottery fund "

Penderfynwyd

Derbyn yr adroddiad a diolch am ei cynnwys

15. Cynhadledd ar y Cyd

Agored i glercod a Chynghorwyr 15 Mai

Penderfynwyd

I Cyng H W Roberts a Cyng A Bohana fynychu ag unrhyw un arall i adael i'r clerc wybod

16. Cyngor Gwynedd

Llythyr Cyng. John Wyn Williams

Pâr: Cynllun datblygu ar y cyd

Cafwyd trafodaeth eang ar y pwnc

Penderfynwyd

Estyn gwahoddiad i Nia Davies ddod i ddiweddarau'r Cyngor cyn ystyried fynd ati i gael tystiolaeth

17. Rhybudd o Gynnig Cyng. W. R. Owen

Pâr: Stiwardio

Penderfynwyd

Cefnogi'r Cynnwys clerc i drefnu cwrs

18. Unllais

Adroddiad Cynrychiolydd Betsi Cadwaladr

Penderfynwyd

Derbyn yr adroddiad ond gofyn trwy Eluned swyddog lleol i'r adroddiadau ddod yn yr hen ffurf ac hefyd i estyn gwahoddiad i Jack Abbott fynychu fel siaradwr gwadd

19. Rhybudd o Gynnig Cyng. W. R. Owen

Pâr: Rhyddfreniaeth i Harry Thomas Prif Weithreder Cyngor Gwynedd

Penderfynwyd

Symud i Panel cyllid a staff am drafodaeth ac i'r clerc ymchwilio i'r broses cywir

20. Llythyr ymddeoliad (o ddiwedd y flwyddyn)

Gan Ei Anrhydedd y Barner Dafydd Hughes

Penderfynwyd

Derbyn y llythyr gyda thristwch, anfon llythyr o ddiolch a symud yr eitem i'r Panel Cyllid a staff nesaf am drafodaeth penodiad newydd

21. Gwynedd Digidol

Bandeang Cyflym

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth

22. Rhybudd o gynnig Cyng. H. W. Roberts

Par: S4C

Penderfynwyd

Cefnogi cynnwys y rhybudd o gynnig ac anfon y llythyr

23. Canllawiau parthed Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011

Copi ar y bwrdd

Penderfynwyd

Copi o'r adran "youth advisers" i bawb er mwyn symud ymlaen efo'r elfen yna

24. Rhybudd o Gynnig Cyng. H. W. Roberts

Pâr: Plac Engedi

Penderfynwyd

Bod hyn yn cadarnhad o beth gafodd ei drafod yn y cyfarfod cynt ac i'r clerc barhau i geisio trafod a'r perchennog newydd

25. Unllais

Dogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru parthed Gorchymyn Mesur Llywodraeth leol (Cymru) 2009 (Diwygio) 2014

Penderfynwyd

Cytunno a'r cynnwys

26. Gŵyl Fwyd

Adroddiad Cyng. Ann Hopcyn

Cafwyd adroddiad cynhwysfawr ac eglurhad llawn gan Cyng Ann Hopcyn

Penderfynwyd

Estyn gwahoddiad i Chris Jones ddod i fyny a trafod mewn cyfarfod cyhoeddus lle byddai modd gwahodd siambr fasnach ag ati gan gytuno i dalu eu gostau , gan bod yn bwysig i bawb glywed o geg y ffynnon

27. E-bost Dilwyn Lloyd

Pâr: Swydd Brysgyllwr

Penderfynwyd

Gofyn wrth Mr Laurence Jones cyn brysgyllwr i wneud am eleni

28 Drysau Agored

Dyddiadau : 5, 12, 19 (un ystafell ddim ar gael), 26 Medi

Penderfynwyd

Derbyn y dyddiadau – angen gwirfoddolwyr

29. Bwlch Gwybodaeth - Cylchlythyr Gwanwyn 2014

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth

.....

30. Eitem Eithriedig

(waharddwyd y wasg a cyhoedd)

Swydd gofalwr

Crybwyll efallai cael swydd 12 mis gan bod nifer o gytundebau yn dod i ben mewn 12mis a bod modd cyplysu swyddi a gwneud un swydd deniadol

Penderfynwyd

Symud i Banel cyllid a rhoi pwerau gweithredu i'r pwyllgor ar y pwnc yma er mwyn medru penodi mor fuan a sy phosib, clerch i cael barn cyfreithiol am yr elfen 12 mis a sut yw'r ffordd orau o gwmpas hyn

.....

31. Cwestiynau

Dim

Gorffennodd y cyfarfod am 8.05

Arwyddwyd Dyddiad